Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Gwahoddiad i dendro

## Consortiwm Cyfiawnder Hinsawdd a Chysylltiad â Natur - Ymarfer Cwmpasu

## Y Comisiynwyr

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Elusen gofrestredig yw Cyngor Celfyddydau Cymru a sefydlwyd drwy Siarter Brenhinol yn 1994. Mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a dyma'r sefydliad swyddogol sy'n ariannu ac yn datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Mae'n gyfrifol hefyd am ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol i'r celfyddydau yng Nghymru.

## Y Cyd-destun

Fis Medi 2020, cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n cyflwyno gweledigaeth gyffredin ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol. Diben y bartneriaeth yw helpu i feithrin y berthynas rhwng y celfyddydau a'r amgylchedd naturiol, a hynny fel rhan o ymrwymiad cyffredin i wella llesiant amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Creodd y ddau sefydliad y Rhaglen Natur Greadigol, sydd wedi cyflawni dau gam o weithgarwch yn 2022 a 2023-25 gan gynnwys y canlynol:

- **Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol 2022 a 2023-25:** Cyfle trawsnewidiol i 16 o artistiaid greu gwaith newydd sy'n tarfu ar feddylfryd cyfredol am i) systemau bwyd, ynni a chludiant yn 2022 a ii) cysylltiad â natur yn 2023-25
- **Cynllun Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau:** Mae'r Cynllun yn amlinellu ein strategaeth ar gyfer cyflawni yn ôl yr egwyddor cyfiawnder hinsawdd yn Fframwaith Strategol Cyngor y Celfyddydau gan gynnwys Cynllun Gweithredu 10 mlynedd. Mae'n amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni sector celfyddydol sy'n cefnogi creadigrwydd ac ysbrydoli pobl i weithredu dros gyfiawnder hinsawdd a sector celfyddydol amgylcheddol gynaliadwy a chyfrifol yn fyd-eang ar sail gyfiawnder cymdeithasol

- **Maes Natur yn ein cronfa Celfyddydau Iechyd a Lles y Loteri** sy'n gwahodd sefydliadau celfyddydol i weithio gyda sefydliadau iechyd, amgylcheddol ac addysg uwch i archwilio manteision lles cysylltu pobl â natur
- **Rhaglen ymgysylltu â'r celfyddydau gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Natur am Byth,** sy'n cysylltu cymunedau â'r rhywogaethau dan fygythiad ac yn cysylltu pobl â natur er budd iechyd a lles
- **Cyfres o sgyrsiau** i ddod ag unigolion ynghyd mewn gwahanol sefydliadau sydd wedi bod yn creu cyfleoedd i artistiaid ac unigolion creadigol sy'n gweithio ar y cysylltiad â natur. Bydd y gyfres yn creu cysylltiadau rhwng y sector diwylliannol, y sector amgylcheddol a sefydliadau sy'n rheoli tir

Mae'r Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi pennu blwyddyn pontio ar gyfer y Rhaglen Natur Greadigol yn 2025/26 a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r posibilrwydd o 'gonsortiwm cyfiawnder hinsawdd a chysylltiad natur' o sefydliadau amgylcheddol a rheoli tir, ac ystyried opsiynau ar gyfer strwythur, cyfansoddiad ac arian y grŵp.

Mae'r gwaith yn bodloni'r i'r camau gweithredu canlynol i 2025/26 yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau (tudalen 29):

"Sefydlu grŵp ffocws ar gyfer artistiaid ac unigolion creadigol sydd â phrofiad byw amrywiol, yn ogystal â sefydliadau yn y sector diwylliannol a'r sector amgylcheddol, a sefydliadau sy'n rheoli tir, i nodi:

- cyfleoedd a chydweithio effeithiol ym maes cyfiawnder hinsawdd a natur, rhwng y celfyddydau a sectorau eraill
- y lleoedd a'r adnoddau y mae modd eu darparu ar gyfer artistiaid y mae eu gwaith yn cysylltu â themâu natur a chyfiawnder hinsawdd
- mentrau i artistiaid ac unigolion creadigol gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol"

Yn Chwefror 2025 dyma oedd y camau roedd cyfarfod cychwynnol o sefydliadau amgylcheddol a rheoli tir i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu 'gonsortiwm cyfiawnder hinsawdd a chysylltiad natur' wedi'u hawgrymu yn y tymor byr a chanolig:

- Creu cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp sy'n amlinellu ei bwrpas, y rhesymeg dros ei aelodaeth a'r prosesau i glywed lleisiau eraill i lunio ei waith
- Creu datganiad o fwriad sy'n cysylltu sefydliadau amgylcheddol, tir a diwylliannol sy'n gweithio yng Nghymru
- Archwilio a threialu ffyrdd o gydweithio i ddarparu preswylfeydd a rhaglenni artistiaid hirdymor, gan wneud y mwyaf o adnoddau ar draws sefydliadau
- Cydgrynhoi a rhannu tystiolaeth o effaith y celfyddydau ar y sector amgylcheddol
- Tynnu at ei gilydd astudiaethau achos ar draws sectorau, cysylltu â nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, comisiynu astudiaethau achos sy'n ymestyn dros amser, o bosibl comisiynu gwerthuswr allanol, creu archif ar-lein o brosiectau
- Creu geirfa o dermau sy'n helpu i eiriol dros y celfyddydau, gan ddeall bod iaith ei hun yn rhwystr

- Datblygu cymuned ymarfer i rannu’r gwaith presennol ac yn y dyfodol, yr arferion gorau a gwaith rhyngwladol ysbrydoledig

Bydd y camau hyn yn sail i'r gwaith ar gyfer 2025/26.

## Y Contract

Mae'r gwahoddiad i dendro ar gyfer Darparwr Gwasanaeth i ymgymryd â'r camau canlynol:

i) cynllunio a chyflwyno 4 cyfarfod o'r 'Consortiwm Cyfiawnder Hinsawdd a Chysylltiad â Natur' yn 2025/26

ii) cyflwyno adroddiad cwmpasu sy'n archwilio modelau strwythuro posibl a modelau codi arian ar gyfer gwaith y Consortiwm y tu hwnt i 2025/26

Mae’n bosibl i ymarfer cwmpasu Consortiwm Cyfiawnder Hinsawdd a Chysylltiad Natur 2025/26 gael ei gynnal gan sefydliad neu weithiwr llawrydd sydd â phrofiad hysbys o godi arian a chyflwyno ymchwil neu ymarferion cwmpasu i lywio'r gwaith o ddatblygu mentrau partneriaeth newydd. Rhaid gwneud y canlynol:

- Datblygu cynllun ac amserlen gadarn i gyflwyno 4 cyfarfod o'r Consortiwm rhwng Medi 2025 a Mawrth 2026 (i’w gorffen erbyn 31 Mawrth 2026). Bydd angen cytuno ar y cynllun gyda phartneriaid o’r Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru
    - Bydd dau gyfarfod yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb (Medi 2025 ac Ionawr 2026) a dau ar-lein (Tachwedd 2025 a Mawrth 2026)
    - Bydd y darparwr gwasanaeth yn gyfrifol am drefnu pob agwedd ar y cyfarfod gan gynnwys lleoliadau, arlwyo, siaradwyr, ffioedd mynychwyr ar gyfer cyfranogwyr digyflog, rhaglennu, hygyrchedd, cyfathrebu ag aelodau o’r Consortiwm. Bydd angen cynnwys costau ar gyfer pob un o'r agweddau yng nghyllideb y darparwr gwasanaeth. Bydd CCC yn talu costau cyfieithydd ar y pryd Cymraeg ar gyfer y pedwar cyfarfod a chyfieithu'r adroddiad terfynol, ond bydd y darparwr gwasanaeth yn talu unrhyw gostau cyfieithu cyfathrebiadau dyddiol gyda'r consortiwm.

- Drwy drafodaeth gyda’r Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru a chyda adborth gan aelodau o'r Consortiwm, cytuno ar ddull o gynnwys sefydliadau celfyddydol, artistiaid ac unigolion creadigol sydd â phrofiad byw amrywiol yn y prosiect

- Dylai'r cyfarfodydd gyflawni'r camau canlynol sydd wedi'u hawgrymu fel canlyniadau tymor byr a chanolig i'r grŵp:
    - Creu cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp sy'n amlinellu ei bwrpas, y rhesymeg dros ei aelodaeth a'r prosesau i glywed lleisiau eraill i lunio ei waith

    - Creu datganiad o fwriad sy'n cysylltu sefydliadau amgylcheddol, tir a diwylliannol sy'n gweithio yng Nghymru
    - Creu geirfa o dermau sy'n helpu i eiriol dros y celfyddydau, gan ddeall bod iaith ei hun yn rhwystr
    - Argymell model ar gyfer cymuned ymarfer i rannu gwaith presennol ac yn y dyfodol, yr arferion gorau a gwaith rhyngwladol ysbrydoledig

- Datblygu a chyflwyno adroddiad erbyn Chwefror 2026, i'w adolygu gan y Consortiwm yng nghyfarfod Mawrth 2026, sy'n mynd i'r afael â'r canlynol:
    - Cylch gorchwyl a datganiad o fwriad y Consortiwm
    - Geirfa o dermau sy'n helpu i eiriol dros swyddogaeth y celfyddydau ym maes gweithredu amgylcheddol, gan ddeall bod iaith ei hun yn rhwystr
    - Adolygiad o raglenni celfyddydol ac amgylcheddol presennol yng Nghymru, gwledydd eraill y DU ac yn rhyngwladol, gan nodi modelau llwyddiannus y mae modd eu haddasu neu eu hailadrodd
    - Amlinellu proses ar gyfer crynhoi tystiolaeth o effaith gwaith celfyddydau a'r amgylchedd ar draws ein sefydliadau a chysylltu â nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol
    - Casglu astudiaethau achos sy'n enghreifftio gwaith aelodau o'r Consortiwm
    - Archwilio sut y gallai'r Consortiwm weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol:
        - i ddatblygu cymuned o ymarfer i rannu gwaith presennol ac yn y dyfodol, yr arferion gorau a gwaith rhyngwladol ysbrydoledig
        - i archwilio gwahanol ffyrdd o gydweithio i gyflwyno preswylfeydd a rhaglenni artistiaid hirdymor yng Nghymru, gan wneud y mwyaf o adnoddau ar draws sefydliadau
    - Archwilio ar argymell opsiynau ar gyfer model strwythuro
    - Cefnogi sefydlu grŵp codi arian cydweithredol i sgrinio opsiynau ariannu a chyflwyno ceisiadau ar gyfer parhad y gwaith y tu hwnt i Fawrth 2026

- Gweithio'n agos gyda'r Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod ein blaenoriaethau ehangach am gydraddoldeb ac amrywiaeth a'r Gymraeg yn cael eu hymgorffori yn y gwaith o gyflwyno'r prosiect

- Adrodd i'r Rheolwr Portffolio ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd yn fisol dros y ffôn/e-bost a/neu gyfarfodydd ar-lein yn ôl yr angen

- Cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Grŵp Llywio Natur Greadigol ym Mawrth 2025

## Amserlen

Bydd yr amserlen yn cael ei chytuno mewn trafodaeth gyda'r Darparwr Gwasanaeth ac aelodau o'r Consortiwm, ond rydym yn rhagweld y bydd yn fras fel a ganlyn:

- Cyfarfod cychwynnol – wythnos sy'n dechrau 11 Awst 2025
- Cyfarfod 1af y Consortiwm (wyneb yn wyneb) – Medi 2025

- 2il gyfarfod y Consortiwm (ar-lein) – Tachwedd 2025
- 3ydd cyfarfod y Consortiwm (wyneb yn wyneb) – Ionawr 2026
- Cyflwyno adroddiad – Mawrth 2026
- 4ydd cyfarfod y Consortiwm i adolygu'r adroddiad (ar-lein) – Mawrth 2026

## Cyllideb

Gwerth y contract yw hyd at uchafswm o £16,000 (heb gynnwys TAW). Rydym yn rhagweld y bydd y contract yn para rhwng 11 Awst 2025 a 31 Mawrth 2026. Rhaid i'r gyllideb gynnwys costau lleoliadau, arlwyo, siaradwyr, ffioedd mynychwyr ar gyfer cyfranogwyr digyflog, rhaglennu a hygyrchedd yn ogystal â ffioedd Darparwr Gwasanaeth.

## Meini Prawf

Bydd y ceisiadau llwyddiannus yn rhoi tystiolaeth ymarferol o’r Meini Prawf hyn:

1. Cynnig cadarn a realistig sy’n cyflawni’r Briff uchod yn llawn, ac yn dangos y gallu i ddechrau ar y gwaith yn gyflym ac i gyflawni’r gwaith yn brydlon
2. Profiad sylweddol o godi arian a chyflwyno ymchwil neu ymarferion cwmpasu i lywio'r gwaith o ddatblygu mentrau partneriaeth newydd gan gynnwys profiad o reoli cysylltiadau â phartneriaid allweddol
3. Profiad amlwg o weithio gyda'r celfyddydau i ystyried themâu cyfiawnder hinsawdd a chysylltiad â natur a gweithio mewn ffordd sy'n gwella lles diwylliannol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
4. Dealltwriaeth gref o’r Gymraeg, diwylliant Cymru a’r sector celfyddydol Cymreig, a’r gallu i ddarparu gwasanaethau’n ddwyieithog
5. Profiad o reoli cyllidebau, gan gynnwys cyflwyno cyllideb hyfyw ar gyfer cyflawni’r Briff
6. Rhoi gwerth da am arian

Mae manylion y matrics sgorio a’r pwysoli i’w gweld yn yr adran Gwerthuso isod.

## Eich tendr

Bydd angen i chi gyflwyno Tendr ysgrifenedig i ni, a hwnnw’n cynnwys yr adrannau hyn yn eu trefn:

1. **Y Cynnig:** Sut byddech chi’n cyflawni Maen Prawf 1, gan ddangos eich dull o gyflawni’r Briff (uchod) (Uchafswm 20 pwynt)
2. **Profiad:** Sut rydych chi'n bodloni Meini Prawf 2, 3 a 4, gan ddangos eich profiad, gwybodaeth a sgiliau. (Uchafswm 28 pwynt)
3. **Cyllideb:** Sut byddech chi’n cyflawni Meini Prawf 5 a 6, gan roi manylion y costau, gan gynnwys cyfraddau dyddiol, nifer arfaethedig y diwrnodau, a manylion aelodau o’r tîm. (Uchafswm 12 pwynt)

## Cyflwyno eich cynnig

Cyflwynwch eich cynnig drwy GwerthwchiGymru heb fod yn hwyrach na **chanol dydd ar 29 Gorffennaf 2025** (y “Dyddiad Cau”). Rhaid ystyried y canlynol:

- Rydym yn croesawu cyflwyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog - ni fydd triniaeth wahaniaethol i geisiadau a dderbynnir yn y naill iaith na'r llall.

- Gall Darparwyr Posibl ofyn am eglurhad am unrhyw rai o'r pwyntiau yn y dogfennau tendr ar unrhyw adeg cyn y dyddiad cau ar gyfer gofyn cwestiynau o’r fath drwy GwerthwchiGymru.
- Wrth gyflwyno'r Tendr, sicrhewch fod yr holl ddogfennau cysylltiedig wedi'i chwblhau'n gywir a'i darparu gyda'r Tendr.

- Ni fyddwn ni’n agor unrhyw dendrau tan ar ôl y Dyddiad Cau. Gan hynny, nid oes cosb am ddychwelyd tendr yn gynnar. Ond rydym ni’n argymell na ddylai'r Darparwr Posibl gyflwyno ei dendr cyn y dyddiad cau ar gyfer negeseuon egluro. Mae’n bosibl y bydd gwybodaeth bwysig yn y negeseuon egluro a allai effeithio ar y cyflwyniad.

- Ni fyddwn ni’n ystyried gwybodaeth ychwanegol na ofynnwyd amdani yn y Gwahoddiad i Dendro.

## Dyddiad Cau

Y Dyddiad Cau ar gyfer derbyn cyflwyniadau yw **hanner dydd Mawrth 29 Gorffennaf 2025**.

Cyfrifoldeb Ymgeiswyr yw sicrhau y caiff eu cynnig ei dderbyn erbyn y Dyddiad Cau.

Ni fyddwn yn ystyried unrhyw gyflwyniadau hwyr neu anghyflawn.

## Amserlen

| | |
|---|---|
| Hysbysebu’r tendr ar GwerthwchiGymru | 3 Gorffennaf 2025 |
| Y dyddiad cau i ofyn cwestiynau i gael eglurhad | 22 Gorffennaf 2025 (hanner dydd) |
| Ymatebion i’r tendr yn ôl | 29 Gorffennaf 2025 (hanner dydd) |
| Gwerthuso | 30 Gorffennaf 2025 |
| Gwahodd i gyfweliadau | 30 Gorffennaf 2025 |
| Cyfweliadau â darparwyr posibl | 6-7 Awst 2025 |
| Rhagweld rhoi gwybod am y dyfarniadau | 7 Awst 2025 |
| Cyfarfod cynllunio cychwynnol | Wythnos sy’n dechrau 11 Awst 2025 |
| Dyddiad dechrau’r contract | 11 Awst 2025 (i'w gytuno gyda'r contractwr) |
| Y contract yn dod i ben | 31 Mawrth 2026 |

## Ymholiadau a cheisiadau am eglurhad am y tendr

Byddwn ni’n ceisio ateb pob cwestiwn cyn gynted â phosibl, ond ni allwn warantu ateb erbyn amser penodol.

Gellir anfon ceisiadau am eglurhad drwy borth GwerthwchiGymru tan **hanner dydd** 22 Gorffennaf 2025. Er mwyn sicrhau bod Darparwyr Posibl yn cael eu trin yn deg, rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r cwestiynau a'r ceisiadau am eglurhad a anfonir gan Ddarparwyr Posibl ynghyd â'n hymatebion ni (heb enwi ffynhonnell y cwestiynau) drwy borth GwerthwchiGymru. Bydd y porth yn rhoi hysbysiadau i Ddarparwyr Posibl am unrhyw ddiweddariadau.

Bydd y negeseuon egluro yn cael eu hanfon drwy borth GwerthwchiGymru.

## Gwerthuso

Bydd y broses dendro'n sicrhau bod tendrau'n cael eu gwerthuso mewn modd agored a thryloyw. Cyngor Celfyddydau Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn gwneud y penderfyniadau i roi'r contract, yn seiliedig ar asesiad o ba mor dda y mae'r cais yn ymateb i'r Meini Prawf uchod.

Nid ydym ni'n rhwym o dderbyn y cynnig isaf nac unrhyw gynnig ac ni fyddwn ni'n rhwym o dderbyn y Contractwr fel unig gyflenwr.

Byddwn ni'n asesu ymatebion y Darparwyr Posibl yn ôl pob un o'r Meini Prawf uchod ac yn gwerthuso fel a ganlyn:

| Sgôr | Meini prawf sgorio |
|---|---|
| 4 | Mae ymateb y Darparwr Posibl yn galluogi'r gwerthuswr i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o sut y caiff y gofyniad ei fodloni. Gall y gwerthuswr nodi'n glir dystiolaeth gynhwysfawr y bydd yr ymateb yn cyflawni'r holl ofynion. Mae'r ymateb hefyd yn dangos sut y darperir gwerth ychwanegol perthnasol. |
| 3 | Mae ymateb y Darparwr Posibl yn galluogi'r gwerthuswr i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o sut y caiff y gofyniad ei fodloni. Gall y gwerthuswr nodi'n glir dystiolaeth gynhwysfawr y bydd yr ymateb yn cyflawni'r holl ofynion. |
| 2 | Mae ymateb y Darparwr Posibl yn galluogi'r gwerthuswr i ddeall sut y caiff y gofyniad ei fodloni. Gall y gwerthuswr nodi tystiolaeth ddigonol y bydd yr ymateb yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gofynion. Mae'n bosibl bod yr ymateb naill ai wedi codi pryder, sawl mater bach, neu'n anghyson mewn rhai agweddau. |

| | |
|---|---|
| 1 | Nid yw ymateb y Darparwr Posibl yn galluogi'r gwerthuswr i ddeall sut y bodlonir y gofyniad. Ni all y gwerthuswr nodi'n glir y bydd yr ymateb yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gofynion oherwydd diffyg tystiolaeth a/neu nad yw'r Darparwr Posibl ddim ond yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig. |
| 0 | Mae'r gwerthuswr o'r farn bod y Darparwr Posibl wedi methu ag ateb y cwestiwn neu roi ymateb perthnasol. |

Gan ddefnyddio'r diffiniadau uchod, bydd ymateb y Darparwr Posibl i bob maen prawf yn cael ei werthuso a'i sgorio yn unol â'r pwysoliad fel a ganlyn:

| | Maen Prawf | Sgôr | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| 1. | Cynnig cadarn a realistig sy’n cyflawni’r Briff yn llawn, ac yn dangos y gallu i ddechrau ar y gwaith yn gyflym ac i gyflawni’r gwaith yn brydlon | 20=Rhagorol<br>15=Da<br>10=Iawn<br>5=Gwael<br>0=Gwael Iawn | X5 |
| 2. | Profiad sylweddol o godi arian a chyflwyno ymchwil neu ymarferion cwmpasu i lywio'r gwaith o ddatblygu mentrau partneriaeth newydd gan gynnwys profiad o reoli cysylltiadau â phartneriaid allweddol | 12=Rhagorol<br>9=Da<br>6=Iawn<br>3=Gwael<br>0=Gwael Iawn | X3 |
| 3. | Profiad amlwg o weithio gyda'r celfyddydau i ystyried themâu cyfiawnder hinsawdd a chysylltiad â natur a gweithio mewn ffordd sy'n gwella lles diwylliannol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 8=Rhagorol<br>6=Da<br>4=Iawn<br>2=Gwael<br>0=Gwael Iawn | X2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. | Dealltwriaeth gref o'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'r sector celfyddydol Cymreig, a'r gallu i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog | 8=Rhagorol<br>6=Da<br>4=Iawn<br>2=Gwael<br>0=Gwael Iawn | x2 |
| 5. | Profiad o reoli cyllidebau, gan gynnwys cyflwyno cyllideb hyfyw ar gyfer cyflawni'r Briff. | 8=Rhagorol<br>6=Da<br>4=Iawn<br>2=Gwael<br>0=Gwael Iawn | x2 |
| 6. | Rhoi gwerth da am arian | 4=Rhagorol<br>3=Da<br>2=Iawn<br>1=Gwael<br>0=Gwael Iawn | Dim pwysoli |
| | Uchafswm y Sgôr | 60 | |

Mae cyfanswm y marciau sydd ar gael yn y tabl uchod yn cynnwys unrhyw bwysoliad sy'n gymwys.

Rhaid i Ddarparwyr Posibl fod yn eglur ac yn gynhwysfawr wrth roi gwybodaeth sy'n benodol ar gyfer pob maen prawf unigol ac yn y lle iawn ar gyfer pob maen prawf unigol. Dyma fydd unig ffynhonnell y wybodaeth a ddefnyddir i sgorio a graddio'r ymatebion.

Cadwn yr hawl i beidio â rhoi'r contract i'r tendr pris isaf neu unrhyw dendr, gan gadw'r hawl hefyd i dderbyn tendr yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

## Cyfweliadau

Rydym ni'n rhagweld y byddwn yn penodi'r Darparwr/Darparwyr a ffafriwn yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnig fel yr amlinellir uchod a thrwy gyfweliad. Byddwn yn gwahodd hyd at bum Darparwr Posibl sy'n cael y sgôr uchaf i gyfweliad.

Byddwn yn rhoi gwybod am amseroedd a dyddiadau'r cyfweliadau unigol ar 30 Gorffennaf 2025 a byddant yn digwydd ar 6 a 7 Awst 2025. Cyfweliadau ar-lein fydd y rhain ac ni fyddant yn para mwy nag 1 awr.

Dylai Darparwyr Posibl nodi na fydd modd i fwy na thri o bobl ddod i'r cyfweliadau. Rhaid i'r rheini sy'n bresennol i gynrychioli'r Darparwyr Posibl gynnwys rheolwr y contract a fydd yn gyfrifol am y contract, ynghyd ag aelodau perthnasol y staff a fydd yn gweithio ar y contract.

Ni fydd meini prawf newydd na dulliau pwysoli newydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfweliadau. At hynny, nid oes marciau ar wahân wedi'u 'neilltuo' ar gyfer y cyfweliadau. Yn hytrach, bydd y panel gwerthuso'n defnyddio'r ymatebion yn y cyfweliadau fel sail ar gyfer 'cymedroli' y sgoriau gwreiddiol a roddwyd i'r ymatebion ar gyfer pob un o'r meini prawf wrth werthuso'r tendrau, naill ai drwy godi neu ostwng y marciau.

Bydd y cyfweliad yn rhoi sylw i'r canlynol:

| Eitem | Amser a neilltuir |
|---|---|
| Cyflwyniadau | 5 munud |
| Trafod y rôl | 15 munud |
| Cwestiynau gan y Panel Gwerthuso | 40 munud |

# Manylion y Contract

Contract tymor penodol a roddir ar gyfer y gwaith hwn. Mae disgwyl i'r contract ddechrau ar **11 Awst 2025** a dod i ben erbyn **31 Mawrth 2026**. Bydd yr holl brisiau'n rhai sefydlog ar gyfer y cyfnod hwnnw.

- Dylai eich cyllideb arfaethedig gynnwys TAW (lle bo hynny'n briodol).
- Bydd eich cynnig yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyngor i Ddarparwyr Posibl (Atodiad 1) a'r gofynion a amlinellir yn y gwahoddiad hwn i dendro.
- Dyma amserlen y taliadau:
  - 20% wrth roi'r contract
  - 40% yn y pwynt canol
  - 40% ar ôl cyflawni'r contract yn foddhaol
- Gwneir y taliadau drwy BACS mewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb foddhaol.

- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i leihau effaith ei waith ar yr amgylchedd ac rydym ni'n annog ein cyflenwyr i fabwysiadu ffordd o weithio sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, gyda'r nod o leihau niwed iddo.

## Trefniadau is-gontractio

Ni chaiff y Darparwr Posibl heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru neilltuo'r cytundeb ac ni chaiff heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru (a'r caniatâd yna'n ddarostyngedig i unrhyw amodau y gallai'r Cyngor eu gosod) is-gontractio unrhyw ran o'r gwaith, heb gytundeb ymlaen llaw.

## Trosglwyddo ar ddiwedd y contract

Ar ddiwedd y contract, dim ond ar ôl gorffen yr holl faterion sydd heb eu datrys, gan gynnwys trosglwyddo'r holl wybodaeth, cofnodion a data ac ati, y caiff y taliad olaf ei wneud.

# Atodiad 1 Cyfarwyddiadau i Ddarparwyr Posibl

CYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL

- Nod y cyfarwyddiadau yw sicrhau bod pob Darparwr Posibl yn cael ystyriaeth gyfartal a theg. Mae'n bwysig felly eich bod yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn y fformat a'r drefn a bennir.
- Dylai darparwyr posibl ddarllen y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus cyn llenwi'r dogfennau tendro. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn ar gyfer cyflwyno'r tendr arwain at wrthod y tendr. Rhaid i Ddarparwyr Posibl ymgyfarwyddo'n llawn â graddau a natur y gwasanaethau a rhwymedigaethau cytundebol.
- Bydd yr holl ddeunydd a gyhoeddir mewn cysylltiad â'r gwahoddiad hwn i dendro yn parhau'n eiddo i Gyngor Celfyddydau Cymru a chaiff ei ddefnyddio at ddibenion yr ymarfer caffael yma'n unig.
- Ni fydd y Darparwr Posibl yn cysylltu (yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol) ag unrhyw gyflogai, asiant neu ymgynghorydd i Gyngor Celfyddydau Cymru sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â'r ymarfer caffael yma, oni chyfarwyddir yn wahanol gan y Cyngor.
- Bydd Darparwyr Posibl yn derbyn a chydnabod na fydd Cyngor Celfyddydau Cymru, drwy gyhoeddi'r gwahoddiad hwn i dendro, yn rhwym o dderbyn unrhyw dendr ac yn cadw'r hawl i beidio â mynd i gontract ar gyfer rhan neu'r cyfan o'r gwasanaethau y gwahoddir tendrau ar eu cyfer.
- Pan fo gofyn i Ddarparwyr Posibl gyflwyno dogfen wedi'i hatodi mewn ymateb i gwestiwn, rhaid cyflwyno atodiadau mewn fformat sy'n dderbyniol i Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae fformatau derbyniol yn cynnwys:

- MS Word,
- MS Excel,
- MS PowerPoint,
- JPEG
- PDF

- Dylai Darparwyr Posibl sydd am gyflwyno atodiad mewn fformat arall holi Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyntaf i weld a fydd hyn yn dderbyniol. Mae’r Cyngor yn cadw'r hawl i farnu bod ymateb yn anghyflawn os na fydd atodiad yn un o’r fformatau uchod heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cyngor.
- Ar unrhyw adeg yn ystod yr ymarfer caffael mae’r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio’r cyfan neu unrhyw ran o'r gwahoddiad hwn i dendro neu ychwanegu ato neu ei dynnu'n ôl.
- Gellir cyflwyno pob ymateb i'r gwahoddiad hwn i dendro yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

CYFRINACHEDD

- Yn amodol ar yr eithriadau yng nghyfarwyddyd 2.2, mae cynnwys y gwahoddiad hwn i dendro yn cael ei ddarparu gan y Cyngor ar yr amod y bydd Darparwyr Posibl yn gwneud y canlynol:
- trin cynnwys y gwahoddiad hwn i dendro ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig (rydym ni’n eu galw’n 'wybodaeth') bob amser yn gyfrinachol, ac eithrio i'r graddau eu bod eisoes yn hysbys i'r cyhoedd;
- peidio â datgelu, copïo, atgynhyrchu, dosbarthu na throsglwyddo unrhyw wybodaeth i unrhyw berson arall ar unrhyw adeg na chaniatáu i unrhyw un o'r pethau hyn ddigwydd;

- peidio â defnyddio unrhyw wybodaeth at unrhyw ddiben heblaw at ddibenion cyflwyno tendr (neu benderfynu a ddylid ei gyflwyno);
- peidio ag ymgymryd ag unrhyw weithgarwch cyhoeddusrwydd ar unrhyw gyfryngau.
- Gall Darparwyr Posibl ddatgelu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw wybodaeth i ymgynghorwyr, isgontractwyr y Darparwr Posibl (neu bobl eraill) ar yr amod bod:
- hyn yn digwydd at y diben yn unig o alluogi cyflwyno tendr a bod y person sy'n derbyn yr wybodaeth yn ymgymryd yn ysgrifenedig i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol ar yr un telerau â phe bai'r person yna’n Ddarparwr Posibl

- y Darparwr Posibl yn cael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw mewn perthynas â datgelu, dosbarthu neu drosglwyddo gwybodaeth o'r fath
- y datgeliad at y diben yn unig o gael cyngor cyfreithiol gan gyfreithwyr allanol am gaffael yr hyn sydd ei angen neu am unrhyw gontract sy'n deillio ohono
- rhaid yn ôl y gyfraith i'r Darparwr Posibl wneud y fath ddatgeliad.

- ran cyfarwyddiadau 2.1 a 2.2 uchod, mae'r diffiniad o 'berson' yn cynnwys unrhyw unigolyn, cwmni, sefydliad, corff neu gymdeithas, corfforedig neu anghorfforedig (ond heb fod yn gyfyngedig i’r rhain ychwaith)

DIOGELU DATA A RHYDDID GWYBODAETH

- Rhaid rhoi sylw dyledus i ofynion cyfrinachedd y contract ac i Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016.
- Bydd y contractwr yn sicrhau bod yr holl waith o brosesu data personol, sy'n ymwneud â'r contract, o'r cychwyn hyd at y diwedd, yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016.
- Gall y contractwr brosesu data personol a/neu ddata personol sensitif o bryd i'w gilydd wrth gyflawni ei rwymedigaethau dan y contract. Ni fydd y contractwr yn prosesu'r cyfryw ddata personol a/neu ddata personol sensitif (fel y'u diffinnir gan y Rheoliadau) heblaw am yn unol â'r contract y gellir ei ddiwygio o bryd i'w gilydd, drwy gytundeb ar y cyd. Dim ond yn ystod cyfnod y contract y bydd gan y contractwr hawl i brosesu data personol, neu hyd nes y caiff ei derfynu, pa un bynnag yw'r cynharaf.

- Ni fydd y contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau dan y cytundeb mewn ffordd sy'n peri i'r parti arall dorri unrhyw un o'i rwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth diogelu data.
- Bydd y contractwr bob amser yn sicrhau y glynir wrth gyfrinachedd y bobl sy’n cymryd rhan yn yr arolwg ac na ryddheir unrhyw ddata a allai fod yn gysylltiedig ag unigolyn adnabyddadwy, heb ganiatâd yr unigolyn. Rhaid ei gwneud yn glir i'r cyfranogwyr yn eu taflenni gwybodaeth a'u llythyrau, mai'r unig bobl a fydd yn gweld y data fydd aelodau allweddol o dîm y contractwr a'r sefydliadau comisiynu.
- Bydd y contractwr yn gyfrifol am sicrhau nad yw unrhyw ddata a gesglir yn peryglu cyfrinachedd ymatebwyr.
- Bydd disgwyl i'r contractwr llwyddiannus storio ffurflenni wedi'u llenwi’n ddiogel ac am gyfnod y contract yn unig.

- Bydd y Darparwr Posibl yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb ac ymrwymiad i’r meysydd yma.
- Yn unol â'r rhwymedigaethau a'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau cyhoeddus gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd gofyn i’r Cyngor ddatgelu’r wybodaeth a gyflwynir gan y Darparwyr Posibl.
- Bydd y Cyngor yn cadw cyfrinachedd. Ond dylai Darparwyr Posibl wybod, hyd yn oed lle y nodir bod gwybodaeth yn sensitif o safbwynt masnachol, y gallai fod yn ofynnol i’r Cyngor ddatgelu gwybodaeth o'r fath yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- Mae'n rhaid i’r Cyngor lunio barn annibynnol ynghylch a yw'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac a yw budd y cyhoedd yn ffafrio ei

datgelu ai peidio. Yn unol â hynny, ni all y Cyngor warantu na chaiff unrhyw wybodaeth a nodir yn 'gyfrinachol' neu'n 'sensitif yn fasnachol' ei datgelu